Mehefin 2007 Rhifyn 158

Pentecost

Gair gan y Bugail

Yr oedd y gwasanaeth fore Sul Mai 20 yn wasanaeth eithriadol o bwysig…efallai hyd yn oed yn hanesyddol! Yr oedd yn wasanaeth lawnsio Apêl Sierra Leone: fe ddangoswyd cyflwyniad power-point am yr apêl yn dangos darluniau o'r bobl – plant, pobl ifanc, mamau, teuluoedd, cymunedau – fydd yn derbyn cymorth drwy'r apêl i gael dechrau newydd i'w bywydau wedi creithiau rhyfel ac yng nghanol tlodi mawr. Fe ddaeth y wlad a'r bobl yn fyw i ni, a'n gobaith yw y byddwn yn ymateb yn hael i'r apêl. Yr oedd yn dda clywed am nifer o ddigwyddiadau sy'n cael eu trefnu. Ond nid dyna oedd yn gwneud y gwasanaeth yn arbennig.

Yr oedd cwmni teledu yn y gwasanaeth yn ffilmio ar gyfer rhaglen i S4C yn ogystal a theledu yn Iwerddon, yr Alban a Lloegr. Dim ond ychydig ddyddiau yng nghynt yr oeddynt wedi gofyn caniatâd i fod yn y gwasanaeth ac ar ôl y gwasanaeth y daeth yn amlwg beth yw'r gyfres y maent yn ei baratoi. Y mae yn chwe rhaglen o awr yn rhoi darlun/portread o'r eglwys fyd-eang, ac yr oedd rhai o'r criw oedd yn y capel wedi bod yn Sierra Leone yn ogystal a mannau fel Ynysoedd y Philipinau, Brasil a Rwsia! Mae'n debyg mai ychydig funudau (os hynny hyd yn oed) yn unig fydd ar y teledu ond yr oedd yn fraint fach annisgwyl i gael bod yn rhan o gyfres fydd yn ymestyn tros y byd. Ond nid dyna oedd yn gwneud y gwasanaeth yn arbennig chwaith.

Beth, felly, a wnaeth y gwasanaeth ar y bore Sul hwnnw mor arbennig? Wel, er mwyn gweld y lluniau ar y sgrîn roedd yn rhaid i'r plant, rhieni, athrawon, symud i ganol y capel a gadael eu cornel arferol. Fe ofynodd y criw teledu hefyd am i'r rhai oedd yn y galeri ddod i lawr i lenwi y gwacter oedd ym mlaen y capel. Roedd gweld yn rhieni a'r plant yn eistedd gyda chenhedlaeth arall yn llonni ac yn cyfoethogi y gwasaneth a'r gynulleidfa. I'r un sydd yn arwain y gwasanaeth – boed o'r pulpud neu o'r lectern – roedd mwy o lawenydd ac undod yn y gynulleidfa hefyd. Mae'n haws siarad a rhoi lle i'r plant; mae'r moliant yn well ac y mae yn fwy cyfforddus i'r plant a'r rhieni beidio wynebu'r gynulleidfa ond bod yn rhan ohoni. Ac mae'r un mor hawdd i lithro allan os

bydd rhaid.Yn naturiol fe fyddai'r plant yn cael eu galw at ei gilydd i lawr ym mlaen y capel pan fydd neges i'r plant yn cael ei chyflwyno. Yn y gorffennol wrth annog criw yr Ysgol Sul i symud i'r canol mae rhai wedi awgrymu ein bod yn ymyrryd a 'hawliau dynol' a'r rhyddid i eistedd mewn man o'n dewis ni! Roedd un o aelodau hynaf yr eglwys wedi *gwirioni* ei bod wedi cael cwmni un o'r tadau a'i blant yn y sedd. Gwych! Melys moes mwy.

Pryderi

Agor Iddo

O Dduw ein Tad,
yr wyt yn ceisio lle yn ein calonnau
ac yn sefyll wrth y drws ac yn curo;
cynorthwya ni i glywed dy lais
ac i agor pob rhan o'n bywyd iti;
cymorth ni i agor ein llygaid
i weld gwaith dy ddwylo yn harddwch y byd o'n cwmpas
ac yn y gofal a'r cadw a fu arnom;
cymorth ni i agor ein clustiau
i wrando dy lais yn llefaru wrthym yn Dy Air
ac yn nhawelwch ein gweddïau;
cymorth ni i agor ein meddyliau
i fyfyrio yn dy wirionedd
ac i dderbyn pob gwybodaeth a gweledigaeth newydd
yr wyt ti am eu cyfrannu inni;
cymorth ni i agor ein heneidiau
i oleuni dy bresenoldeb
ac i rin a llawenydd cymuned â thi;
cymorth ni i agor ein calonnau
i ti gael dod i mewn i deyrnasu ynom
ac i'n gwneud yn eiddo llwyr i Ti dy hun.

Amser i Dduw

Llongyfarchiadau

...i **Henry Downs a Sarah Morgans** ar eu priodas yng Nghapel y Morfa ar Fai 16. Dymunwn yn dda iawn iddynt hwy a Gwen fel teulu ac yr ydym yn gobeithio pan ddaw *Perthyn* o'r wasg y bydd Henry gartref o'r ysbyty.

...i **M.G.Thomas** am ddathlu ei benblwydd yn 90 yn ystod mis Mai a chan wybod y bydd Dilys ei briod yn gwneud hynny cyn diwedd yn flwyddyn hefyd.

Yn ystod y mis dathlodd **Nel Evans** (Ffordd Caradog) ei phenblwydd yn 90 hefyd ac yr ydym yn dymuno'n dda iawn iddi wrth ei llongyfarch.

Dymuno'n dda

...i **Ivor ac Ann Williams** (gynt o'r Brendan) sydd bellach wedi ymaelodi yn eglwys Heol y Crwys, Caerdydd.Yr ydym yn dymuno'n dda iawn iddynt ac yn diolch am y llun y maent wedi ei anfon i *Perthyn.*

Dyma lun gyda'r teulu sydd yn byw yn Los Angeles (Rachel a David) a'r ddwy wyres, Amelia ac Isobel Y mae Mathew (mab Ivor a Anne) yn y llun hefyd .

Cofion

At nifer o'n haelodau sydd wedi bod neu sydd yn yr ysbyty: **Margaret Evans, Valmai Owen, Gwenlais Jones, Mary Benjamin (Ebeneser), Henry Downs**.

Diolch

Dymuna Huw, Mary, Hywel a Tomos ddiolch i'r aelodau am y cardiau, negeseuon a galwadau ffôn niferus a dderbyniwyd ganddynt yn ystod y misoedd diwethaf ac i Pryderi am gysylltu gyda ni yn gyson.

Gwerthfawrogwyd yn fawr eich consyrn a'ch caredigrwydd, a bu hyn yn gysur mawr i ni teulu. Diolch yn fawr iawn.

Priodas

Llongyfarchiadau i Tomos Wyn Williams a Zoe Renate Morris ar eu priodas yng nghapel Cwmerfyn ddydd Sadwrn Mai 19. Fe fyddant yn byw yng Nghaerdydd

Yr eglwys fel blodyn lliwgar - ond coesau pwy sydd o dan y blodyn?

Mau dau flaenor o'r Morfa wedi cytuno i ddod atom yn eu tro (yn dilyn cwmni ffyddlon Mr Geraint Lewis Jones), sef Mr Ieuan James a'r Athro Alun Morris ac mae croeso mawr iddynt hwythau. Mae Mr Trefor Evans wedi bod yn hynod o ffyddlon ar brynhawn Sul ers y trefniant hwn ac edrychwn ymlaen at ei gwmni eto am flwyddyn. Rydym yn ddiolchgar iawn iddo yntau a Ieuan am ddod i'r adwy a cymeryd y gwasanaeth brynhawn Sul, 13 Mai yn absenoldeb y Parchedig D Harding Rees a fethodd ddod atom oherwydd salwch. Da yw deall bod Mr Rees yn teimlo'n well erbyn hyn ac wedi dod yn ôl i Gerddi Rheidol o Abergwaun.

Nos Iau, 17 Mai, cynhaliwyd Noson Goffi er budd Cymorth Cristnogol. Eleni cawsom groeso gan chwiorydd yr Eglwys Fethodistaidd Saesneg yn y pentref. Diolch i Mrs Megan Evans sydd bob blwyddyn wrth y dollfa ac i chwiorydd Ebeneser am eu rhoddion a'u cefnogaeth eto eleni ynghyd â chwiorydd Eglwys St Anne a'r Eglwys Gatholig. Braidd yn siomedig oedd yr ymateb yn gyffredinol o'r pentref ond er hynny derbyniwyd £178.00 tuag at gasgliadau'r Wythnos bwysig hon.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Mary Benjamin a Miss Ray Griffiths (Bodlondeb) sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Bronglais, ac mae'r un cofion hefyd at Miss Jennie Evans, Mrs Glenwen Richards a Mrs Laura Rumsey-Williams, ac at Mr Bob Davies ym Mhlas Cwmcynfelin, Miss Mair Jones yng Nghartref Abermad, a'r ffrindiau eraill yng Nghartref Bodlondeb a Hafan y Waun. Gobeithio cyn hir, i ni gael y tywydd hafaidd eto a chyfle i chi gael mwynhau eistedd allan am orig yng nghysgod yr haul. Mae Mrs Lilian Jenkins yn gwella'n dda ar ôl derbyn llaw driniaeth ar ei llygad yn ddiweddar, ac edrychwn ymlaen at gael ei chwmni yn ôl gyda ni ar brynhawn Sul.

Er Cof

Gwladys Griffiths, 9 Coedlan y Parc a fu farw ar Fai 4ydd yn 93 oed. Un o ardal Llangadog oedd Gwladys ac fe gadwodd hyfrydwch acen Sir Gâr ar hyd ei hoes. Fe ddiolchai gyda gwên am ei gwreiddiau a'i magwrfa yn un o naw o blant (y mae'r unig un sydd ar ol bellach, Ann, yn 98). Yr oedd y diolch a'r wên yn nodweddiadol o Gwladys. Ei diolch am briodas dda gyda David a'i balchder yn llwyddiant Wynne, eu mab, a'i ofal mawr o'i fam a'i dad. Mwynhaodd ei gyrfa fel athrawes ac fel prif athrawes mewn amryw o ysgolion yr ardal. Mwynhaodd hefyd ei gardd ac fe enillodd sawl cwpan am ei llwyddiant ar y cwrs golff. Yr oedd ganddi atgofion hapus hefyd o'i gwaith gydda Cymdeithas y Chwiorydd yn Seilo.Hyd yn oed pan fu yn rhaid iddi gael gofal ym Modlondeb yn ystod y ddwy flynedd olaf, ni pheidiodd y wên. Ni pheidiodd gofal ffyddlon ei phriod chwaith ac yr oedd wrth ei bodd o glywed fod Wynne yn ymddeol yn gynnar o'i swydd yn Dundee er mwyn dod gartref atynt. Mae bod yn fyddar yn gyflwr unig ac anodd iawn, ac am ychydig yn yr ysbyty fe gollodd Gwladys ei lleferydd hefyd ond drwy'r cyfan – ni pheidiodd y wên! Yr ydym yn cydymdeimlo yn fawr â David ei phriod a Wynne y mab gan wybod fod ganddynt atgofion o flynyddoedd hapus o fywyd teulu.

D.T.Jones 21 Llys y Brenin a fu farw ar Fai 15 yn 92 oed.Pan ymddeolodd D.T. fel ffermwr a dod i fyw gyda'i briod Nel a'u merch Ann i Ffordd Caradog syndod i bawb oedd yn ei adnbaod fel gwr ei filltir sgwar oedd ei fod wedi cael swydd fel gyrrwr fan y Cyngor Llyfrau a'i fod wei mwynhau teithio Cymru ben-baladr – hyd yn oed i drafnidiaeth Caerdydd! Gwr bodlon a hawddgar ei fyd ydoedd a dim yn rhoi mwy o bleser iddo tros y blynyddoedd na physgota ac yn y blynyddoedd olaf, edrych ar yr drudwy yn dod i glwydo neu fwydo'r colomenod o'i fflat (a hyd yn oed yn y fflat!) Yn Ann cafodd ofal tawel a ffyddlon (yn arbennig y blynyddoedd olaf pan oedd D.T. yn gaeth i'w fflat) ac er nad yw gwaith y 'gofalwyr' yn hawdd, fe wnaeth Ann hynny gyda gwên, cariad ac amynedd oherwydd ei bod yn ferch a welai y gofalu yn fraint ac nid yn faich nac yn fwrn. Y mae dwy chwaer iddo yn fyw o hyd a hwythau hefyd yn cael gofal gan eu plant ac arwydd

o deulu clos estynedig yw fod ei nithoedd a'i neiaint yn meddwl y byd o wncl Tom. Nid annisgwyl oedd deall mai angladd i'r teulu yn unig oedd ei ddymuniad. Yr ydym yn cydymdeimlo yn fawr ag Ann yn ei phrofedigaeth ac unwaith eto, yn diolch iddi.

Crefydd yn Gwahanu - Plaid yn uno

Ar y 9fed o Fai traddododd Rhys Llwyd gyflwyniad gyda'r teitl uchod yn Morlan, ac ar ôl hyn cafwyd trafodaeth am rhyw hanner awr ar y pwnc. Prif amcan y cyflwyniad oedd dangos fod modd i Gristnogion gydweithio yn y sffêr wleidyddol gyda rhai nad ydynt o'r un cred, ac yn wir heb gred o gwbl. Roedd yn ddarlith amserol iawn gan ei fod nid yn unig lai nag wythnos ar ôl i Blaid Cymru wneud mor dda yn etholiadau'r Cynulliad (Plaid wleidyddol mae Rhys Llwyd yn flaengar iawn ynddi ar lefel leol), ond hefyd y diwrnod cynt cytunodd dwy blaid wahanol iawn o Ogledd Iwerddon i gyd-lywodraethu dros y wlad. Yn draddodiadol, cysylltir y DUP â Phrotestaniaeth Efengylaidd, ffwndamentalaidd, tra chysylltir Sinn Fein â Chatholigiaeth Rufeinig ag iddi ochr filwriaethus genedlaetholgar. Er mae yng nghyd-destyn gwleidyddol digwyddodd hyn, mae'n dyst pendant i'r gallu a'r anghenrheidrwydd i gyfnewid syniadau rhwng carfannau crefyddol a syniadau gwleidyddol gwahanol iawn er lles y gymuned gyfan.

Yng nghyd destun Cymru a Phrydain soniodd Rhys Llwyd am y tŵf yn y nifer o Foslemiaid sydd yn y wlad. Soniodd fod bellach gan Blaid Cymru Foslem yn aelod o'r Cynulliad am y tro cyntaf, sef Mohammaad Ashgar. Nid yw Rhys yn cael unrhyw drafferth i groesawi Mohammad fel aelod o Blaid Cymru. Yn wir, credai fod mwy o dir cyffredin rhyngddynt na sydd ganddo â rhai aelodau angrediniol fel Iolo ap Gwynn, sydd yn dilyn syniadau anffyddiol eithafol Richard Dawkins. Cododd bedwar pwynt cyffredin rhwng Cristnogion fel ef ei hun a Moslemiaid fel Mohammaad Ashgar sef:

1. Cydnabod bodolaeth y sffêr ysbrydol
2. Cydsyniad o foesoldeb
3. Ofn Duw
4. Sancteiddrwydd Bywyd

Disgrifiodd Rhys ddysgeidiaeth diwinydd Calfinaidd o'r Iseldiroedd o'r enw Abraham Kuyper (1837-1920). Cododd i fod yn Brif Weinidog yr Iseldiroedd drwy fynd i glymblaid gyda'i elynion traddodiadol, sef plaid y Catholigion.

Darganfu sail resymegol i'w rôl a'i fywyd cyhoeddus tu allan i'r eglwys, sef "Gras Cyffredin". Syniad Calfinaidd yw hyn sy'n golygu fod Cristnogion yn derbyn "Gras Achubol" a phawb arall yn derbyn "Gras Cyffredin". Yn ôl y ddysgeidiaeth mae "Gras Achubol" yn achub y dyn syrthiedig ac yn adfer ei berthynas a'r Tad Nefol, tra fod "Gras Cyffredin" yn dal effeithiau pechod yn ôl o'r byd dros dro ac yn golygu nad yw'r byd yn hollol syrthiedig, ac felly yn galluogi Cristnogion i ymhêl â'r sffêr gyhoeddus a chyda'r byd a'i bethau.

Ond er y drafodaeth frwd gafwyd ar y noson credai Rhys nad yw derbyn y pedwar pwynt uchod yn unig yn galluogi i bobl dderbyn gras achubol Duw. Er mwyn derbyn hwn rhaid derbyn Iesu yn Waredwr. Pwysleisiodd nad oes modd i Foslemiaid nag anghredinwyr dderbyn hyn, er bod y cyntaf yn cydnabod Iesu yn broffwyd.

Ar y llaw arall dadleuodd rhai ar y noson mae'r un gras yw gras achubol â gras cyffredin ac er fod rhai wedi cael profiadau ysbrydol mawr o gael eu hachub nid yw hyn yn hollol allweddol er mwyn cael bywyd tragwyddol.

Gallwch ddarllen y cyflwyniad yn llawn a barn Rhys ar y noson ar ei flog ar y cyfeiriad*
http://rhysllwyd.blogspot.com/2007/05/crefydd-yn-gwahanu-plaid-yn-uno.html.
Defnyddiwyd darnau o hwn i baratoi yr adroddiad yma.

Hywel Lloyd 20 Mai 2007

**Cewch ei ddarllen hefyd ar wefan www.morlan.org.uk*

Nos Fercher Mehefin 13 am 8.00: ***Dweud ei Ddweud***

Barn Duw? Goelia'i fawr!

Parchedig Enid Morgan

Nos Wener Mehefin 15 7.30 £4.00

Meet George Fox

Cyflwyniad un-dyn gan yr actor ***Colin George*** *am fywyd sylfaenydd y Crynwyr: 'Ni all neb beidio a chael ei ddifyrru, ei addysgu a'i gyffroi gan bortread byw Colin George'*

Nos Fercher Mehefin 27 am 7. £6.00 (£4.00)

Ruling the Roost

'Drama i gynhesu'r galon'

Cwmni enwog Hijinx yn cyflwyno eu cynhyrchiad diweddaraf…am dair cenhedlaeth, gwerthoedd gwahanol, anghenion gwahanol, bywyd gwahanol

Digwyddiadau eraill

Henaduriaeth Ordeinio Blaenoriaid yng Nghapel y Morfa, ddydd Sadwrn Mehefin 16.
Cyfarfod Busnes am 2.30 Gwasanaeth ordeinio am 6.00.
Y cyngor gan Lywydd y Sasiwn, Y Parchedig Gareth Reynolds, Caerdydd

Clwb Hwyl Hwyr yng Ngholeg y Bala
Mehefin 22-24

Trip y Gymdeithas

Bydd y trip eleni yn mynd ar ddydd Mercher, 27 Mehefin am 12 o'r gloch. Fel arfer, fe fydd yna fws newydd moethus, ac fe drefnir cinio bendigedig cyn cyrraedd adref ar ôl taith bleserus a diddorol, ddim yn rhy hir erbyn tua 9.30. Ni fydd llawer o gerdded. Trip dirgel ydyw a chan fod chwyddiant a dim bwriad i ostwng safon, gobeithir trefnu'r cwbl am gost o tua £19. A wnaiff pawb a hoffai ddod roddi ei henwau i Hefin Jones neu ffonio 615177.

Dyddiadur Mehefin 2007

Gwasanaethau'r Sul 10.00 & 6.00; Ebeneser 2.15
3 Y Bugail.
10 Parchedig Evan Morgan, Caerdydd
17 Y Bugail
24 Parchedig Dafydd Andrew Jones, Caerdydd
Cymun nesaf: Sul cyntaf o Orffennaf (Hwyr)

Cylch Gweddi a Choffi : Bore Mawrth 10.30
Myfyrdod a Gweddi Nos Iau am 7.00
Cymorth Cristnogol: Cinio Bara a Chaws Neuadd y Buarth (Mehefin 4)

Swyddogaethau Mehefin 2007

Blaenor y mis Mr. Ifan G. Moelwyn-Hughes
Porthorion Eleri Davies, Hywel Jones, Brynley Roberts, Rhiannon Roberts
Ebeneser Gwladys Adams a Catherine Jones

Blodau'r Cysegr:

	Capel y Morfa	*Ebeneser*
3	Glenys James	Megan J. Evans
10	Dilys Stephens/Auriel Fenton	Glenys Thomas
17	Mattie Jones/Enid Jones	Mary Benjamin
24	Nancy Lovatt	Catherine Jones

Cynorthwywyr ariannol:

3 Wil a Mair Griffiths
10 Beti Roberts a Blodwen Williams
17 Alun a Mary Morris
24 Meirion Morgan a David Harris

Tregerddan Gwerfyl Pierce Jones a Geraint Lewis Jones